# CYNGOR SIR YNYS MÔN

## Cofnodion y cyfarfod hybrid a gynhaliwyd ar 6 Rhagfyr 2022

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Cynghorydd Dafydd Roberts (Cadeirydd)<br>Cynghorydd Margaret Murley Roberts (Is-gadeirydd)<br><br>Cynghorwyr Geraint Bebb, Non Dafydd, Paul Ellis, Jeff Evans, Neville Evans, Glyn Haynes, T Ll Hughes MBE, Llinos Medi, A M Jones, Carwyn Jones, Dyfed W Jones, G O Jones, R Ll Jones, Jackie Lewis, Euryn Morris, Alun W Mummery, Pip O'Neill, Derek Owen, Llio A Owen, Gary Pritchard, Dylan Rees, Alun Roberts, Keith Roberts, Nicola Roberts, Ken Taylor, Dafydd Rhys Thomas, Ieuan Williams, Robin Williams ac Arfon Wyn |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr<br>Dirprwy Brif Weithredwr,<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro,<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/ Swyddog Adran 151,<br>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol,<br>Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc,<br>Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol) a Thrawsnewid,<br>Pennaeth Priffyrdd, Eiddo a Gwastraff,<br>Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd,<br>Pennaeth Gwasanaethau Tai,<br>Pennaeth Gwasanaethau Oedolion,<br>Swyddog Cyfathrebu (GJ),<br>Swyddog Pwyllgor (MEH). |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Dim |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorwyr Douglas Massie Fowlie, John Ifan Jones, Alwen Pennant Watkin a Liz Wood |

### 1. COFNODION

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Hydref, 2022 fel cofnod cywir.

### 2. DATGANIAD O DDIDDORDEB

Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb.

## 3. DERBYN UNRHYW GYHOEDDIADAU GAN Y CADEIRYDD, ARWEINYDD Y CYNGOR NEU'R PRIF WEITHREDWR

- Rhoddwyd cyflwyniad, fel cynnig o ddiolch i'r cyn gynghorwyr sydd wedi ymddeol o'r Cyngor Sir cyn etholiadau mis Mai 2022.

  John Griffith, Richard Griffiths, Vaughan Hughes, R Meirion Jones, Richard O Jones and Bob Parry OBE FRAgS.

- Rhoddwyd cynnig o ddiolch, wedi oedi hir, i Mr Noel Thomas am ei wasanaeth fel cyn gynghorydd Cyngor Sir.

- Bu i Aelod o bob Grŵp Gwleidyddol roi teyrnged i Mr Thomas a chydnabod y camweinyddiad cyfiawnder yr oedd wedi'i ddioddef am un flwyddyn ar bymtheg cyn iddo lwyddo i glirio ei enw.

Cafwyd y cyhoeddiadau canlynol gan y Cadeirydd:-

- Mae prosiect arloesol i gyflenwi banciau bwyd ar Ynys Môn gyda ffrwythau a llysiau ffres wedi ennill gwobr genedlaethol. Mae'r Cyngor Sir wedi arwain ar y prosiect sydd wedi gweld cydweithio gyda Banc Bwyd Môn, Banc Bwyd Amlwch a Bwyd Da Môn, y Wallich, Care Link a Wild Elements.
- Mae gwaith y Cyngor ar brosiect atal llifogydd Mill Lane - Biwmares - wedi ennill gwobr anrhydeddus ICE Cymru 2022, sef Gwobr Roy Edwards, am fod yr enghraifft orau o brosiect dylunio ac adeiladu eithriadol.
- Mae'r fenter Cartrefi Clyd wedi ennill Gwobr Plant Mewn Gofal, Gwobrau 'Children and Young People Now 2022' a hynny am ei lwyddiant wrth ofalu am blant o fewn cartrefi lle bydd y plant yn cael gofal a magwraeth.
  Mae'r Wobr Plant Mewn Gofal yn cydnabod awdurdod lleol neu ddarparwr gofal sydd wedi gwneud fwyaf i wella canlyniadau ar gyfer plant neu bobl ifanc sy'n derbyn gofal boed hynny mewn gofal preswyl, gofal maeth neu leoliadau eraill.
- Er bod ymgyrch tîm pêl-droed Cymru yng Nghwpan y Byd wedi bod yn un siomedig - roedd hi'n braf iawn gweld dau o hogiau Ynys Môn yn cynrychioli Cymru. Mae'r gôl-geidwad Wayne Hennessey (o Fiwmares) a'i hyfforddwr Tony Roberts (o Gaergybi) wrth gwrs.

* * * * *

Cydymdeimlwyd â theulu Mr Geoff Murray, cyn ofalwr Swyddfeydd y Cyngor yn Llangefni. Gweithiodd Geoff i'r Cyngor rhwng 1991 a 2016 cyn ymddeol.

Cydymdeimlwyd ag unrhyw Aelod arall o'r Cyngor Sir neu Aelod o Staff a oedd wedi dioddef profedigaeth.

Bu i Aelodau a Swyddogion sefyll am funud o dawelwch.

**4. RHYBUDD O GYNIGIAD YN UNOL Â RHEOL 4.1.13.1 O'R CYFANSODDIAD**

Cyflwynwyd – y Rhybudd o Gynigiad canlynol gan y Cynghorwyr Liz Wood, Derek Owen ac Aled M Jones :-

*"Gofynnwn i Gyngor Sir Ynys Môn ystyried yr holl bosibiliadau i wneud Dydd Gŵyl Dewi'n ŵyl banc. Bydd hyn yn ein galluogi i ddathlu diwrnod ein Nawddsant a'n Diwrnod Cenedlaethol."*

Bu'r Cynghorydd Aled M Jones, yn absenoldeb y Cynghorydd Liz Wood, ofyn i'r Cyngor Sir roi pwysau ar Lywodraeth y DU am i Ddydd Gŵyl Dewi fod yn wŷl banc er mwyn galluogi dathliad o'n nawddsant.

Bu'r Cynghorydd Derek Owen eilio'r cynnig.

Bu'r Aelod Portffolio Cyllid, Busnes Corfforaethol a Phrofiad Cwsmeriaid gynnig gwelliant i'r Rhybudd o Gynigiad sef bod y Cyngor yn ysgrifennu at Lywodraeth y DU ar ôl yr etholiad cyffredinol nesaf yn cynnig y dylid gwneud Dydd Gŵyl Dewi yn wŷl banc yng Nghymru.

Bu Arweinydd y Cyngor eilio'r gwelliant.

Cytunodd y Cynghorydd Aled M Jones i dynnu ei Rybudd o Gynigiad yn ôl gan ffafrio'r Rhybudd o Gynigiad gyda'r gwelliant.

Cafodd y Gwelliant ei basio.

**5. PENODI AELODAU O GYNGHORAU TREF A CHYMUNED I'R PWYLLGOR SAFONAU**

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro) mewn perthynas â'r uchod.

**PENDERFYNWYD:-**

**Yn unol â phenderfyniad ar y cyd y cynghorau tref a chymuned, cafodd y cynghorwyr tref a chymuned canlynol eu hethol ar y Pwyllgor Safonau er mwyn iddynt fod yn weithredol ar unwaith:-**

**Cynghorydd Margaret Thomas o Gyngor Tref / Cymuned Llangefni a Cynghorydd Iorwerth Roberts o Gyngor Tref / Cymuned Bryngwran**

**tan yr etholiadau llywodraeth leol nesaf neu tan na fydd y rhai a benodir yn aelodau cyngor cymuned; pa bynnag un sy'n digwydd gyntaf.**

**6. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y CYFARWYDDWR AR EFFEITHIOLRWYDD Y GWASANAETHAU CYMDEITHASOL 2021/22**

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol mewn perthynas â'r uchod.

Diolchodd yr Aelodau Portffolio Gwasanaethau Cymdeithasol, Oedolion a Gwasanaethau Plant, i'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol ac i staff yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol am eu gwaith. Fel y nodwyd yn yr adroddiad, cafwyd nifer o lwyddiannau o fewn y Gwasanaeth. Fodd bynnag fe bwysleisiwyd, oherwydd yr argyfwng costau byw, y bydd mwy o bwysau ar y Gwasanaethau wrth i fwy o bobl fod angen gofal a chefnogaeth.

Adroddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol bod yr Adroddiad Blynyddol yn adroddiad statudol ac amlygodd y llwyddiannau o fewn yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol fel y nodir yn yr adroddiad. Cyfeiriodd yn benodol at lwyddiant y prosiect Cartrefi Clyd sy'n caniatáu i blant mewn gofal i dderbyn gofal o fewn eu cymunedau lleol. Nododd ymhellach fod cydweithio â'r Bwrdd Iechyd a'r trydydd sector wedi cyfrannu at lwyddiannau o fewn y Gwasanaethau.

Dywedodd y Cynghorydd Aled M Jones fod cyfuniad cyllideb y Gwasanaeth Oedolion a Gwasanaethau Plant wedi cynyddi 18% dros y 3 blynedd diwethaf. Holodd am weledigaeth y Gwasanaethau ar gyfer y dyfodol gan fod cynnydd o'r fath yn anghynaladwy.

Ymatebodd yr Aelod Portffolio Gwasanaethau Oedolion fod y Cyngor a'r Bwrdd Iechyd yn ael sgyrsiau parhaus er mwyn rhoi mesurau ataliol yn eu lle er mwyn sicrhau bod pobl mor iach â phosibl heb orfod mynd i mewn i'r ysbyty ac angen pecynnau gofal sy'n gallu rhoi straen ar Wasanaethau.
Ymatebodd yr Aelod Portffolio Gwasanaethau Plant hefyd drwy ddweud fod y prosiect Cartrefi Clyd wedi gallu cael ei sefydlu yma yn Ynys Môn o ganlyniad i grant a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru.

**PENDERFYNWYD derbyn Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr ar effeithiolrwydd y Gwasanaethau Cymdeithasol 2021/22**

Daeth y cyfarfod i ben am 3.25 o'r gloch

**Y CYNGHORYDD DAFYDD ROBERTS**
**CADEIRYDD**